

CYMDEITHAS R S THOMAS AC M E ELDRIDGE

CYFANSODDIAD

ENW: Enw'r gymdeithas yw CYMDEITHAS R S THOMAS AC M E ELDRIDGE
[a elwir ar ôl hyn Y GYMDEITHAS]

1. NODAU AC AMCANION

- i. Dod at ei gilydd bobl sy'n gwerthfawrogi gwaith llenyddol ac artistig, cyfansoddiadau cerddorol, safleoedd ac arteffactau sy'n gysylltiedig â'r bardd R S Thomas a'r arlunydd M E Eldridge.
- ii. Trefnu a hyrwyddo gwyliau llenyddol, celf a cherddorol yn gysylltiedig ag R S Thomas ac M E Eldridge.
- iii. Cynhyrchu, hyrwyddo cyhoeddi a gwerthu cyhoeddiadau a deunyddiau'n gysylltiedig ag R S Thomas ac M E Eldridge.
- iv. Trefnu cyfarfodydd lle bydd gwaith llenyddol R S Thomas a gwaith artistig M E Eldridge yn cael eu hastudio â'u trafod.
- v. Gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau sydd â'u hamcanion yn gyson â gwaith y GYMDEITHAS er mwyn cyfnewid gwybodaeth a chyngor, gan gynnwys cydweithredu â chyrrff gwirfoddol, elusennau a sefydliadau statudol ac anstatudol sydd â diddordebau yn y Celfyddydau.
- vi. Gwneud popeth sydd ei angen i hybu'r uchod

2. HAWLIAU

Er mwyn hyrwyddo'r nodau a'r amcanion, ond nid fel arall, gall Y GYMDEITHAS:

- i. Hyrwyddo nodau ac amcanion Y GYMDEITHAS a gweithio i gyflawni hynny gydag unrhyw un heb wahaniaethu o ran oedran, rhyw, ethnigedd, gallu, cerfydd na barn wleidyddol.
- ii. Gweithio ar y cyd â grwpiau a sefydliadau tebyg.
- iii. Gwahodd a derbyn cyfraniadau a chodi arian yn ôl y gofyn i ariannu gwaith Y GYMDEITHAS ac agor cyfrif banc i reoli arian o'r fath
- iv. Rhoi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo gwaith Y GYMDEITHAS a threfnu cyfarfodydd, cyrsiau hyfforddi, seminarau neu debyg.
- v. Gweithio gyda grwpiau tebyg a chyfnewid gwybodaeth, cyngor a gwybodaeth, gan gynnwys cydweithredu gyda chyrrff gwirfoddol, elusennau a sefydliadau statudol ac anstatudol eraill.
- vi. Cyflogi staff a gwirfoddolwyr yn ôl y gofyn i gynnal gweithgareddau ac i gyfarfod â nodau ac amcanion Y GYMDEITHAS.
- vii. Gweithredu mewn unrhyw ffordd gyfreithlon ac angenrheidiol er mwyn cyflawni nodau ac amcanion Y GYMDEITHAS.

3. ARIAN A CHYLLID

- i. Dim ond ar nodau ac amcanion Y GYMDEITHAS, fel y dangosir uchod, y bydd arian Y GYMDEITHAS yn cael ei wario, ar ôl caniatáu treuliau rheoli rhesymol.
- ii. Bydd unrhyw arian a ddaw i law'r GYMDEITHAS, gan gynnwys rhoddion, cyfraniadau ac arian mewn ewyllysiau, yn cael ei dalu i gyfrif yn enw Y GYMDEITHAS.
- iii. Bydd unrhyw weithredoedd, sieciau ac yn y blaen ynghylch cyfrif banc Y GYMDEITHAS yn cael eu llofnodi gan unrhyw ddau (2) o'r canlynol: Y Cadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd.
- iv. Bydd blwyddyn gyfrifo'r GYMDEITHAS yn rhedeg o'r 1 Ionawr tan 31 Rhagfyr.
- v. Bydd Archwilydd yn cael ei gynnig gan y Bwrdd Ymgynghorol i'w gymeradwyo gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

4. AELODAETH

- i. Bydd Y GYMDEITHAS ar agor i bawb heb wahaniaethu o ran hil, oedran, crefydd, rhyw na thueddiad rhywiol.
- ii. Os ystyrir y byddai aelodaeth yn ddifriol i nodau ac amcanion Y GYMDEITHAS, bydd gan y Bwrdd Ymgynghorol hawl i wrthod, ddiddymu neu ohirio aelodaeth unrhyw aelod drwy gynnig wedi'i dderbyn mewn cyfarfod.
- iii. Bydd unrhyw aelod yn rhydd i ymddiswyddo drwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd o ddim llai na saith niwrnod.
- iv. Bydd yr Ysgrifennydd yn cynnal cofrestr o aelodau.
- v. Bydd y tanysgrifiad blynyddol yn cael ei benderfynu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a daw'n ddyledus yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn.
- vi. Bydd gan bob aelod un bleidlais yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- vii. Gall y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol benodi Aelodau Anrhydeddus a fydd â hawliau pleidleisio llawn.

5. IAITH

Saesneg fydd iaith trafodaethau'r GYMDEITHAS. Os bydd amwyster ynghylch ystyr yn y Cyfansoddiad hwn neu ddogfennau swyddogol eraill y GYMDEITHAS, y fersiwn Saesneg fydd oruchaf.

6. Y BWRDD YMGYNGHOROL

- i. Bydd Y GYMDEITHAS yn cael ei gweinyddu gan Fwrdd Ymgynghorol o ddim llai na thri a dim mwy na deg o bobl a bydd yn rhaid i bob un fod dros 18 oed. Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, fel arfer yn yr ŵyl farddoniaeth a chelf fis Mehefin a mis Tachwedd. Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn penderfynu ar ddyddiadau, amserau, a lleoliadau gweithgareddau a gall gynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ôl y gofyn.
- ii. Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn trafod gwaith ac yn cadw llygad ar ei gynnydd, yn ystyried datblygiadau at y dyfodol ac yn cymryd yr holl benderfyniadau ynghylch rhaglenni digwyddiadau'r dyfodol, materion ariannol ynghylch gwariant mawr a / neu arian grant ar gyfer ariannu'r GYMDEITHAS.
- iii. Etholir aelodau o'r Bwrdd Ymgynghorol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y GYMDEITHAS am gyfnod cychwynnol o hyd at dair blynedd, ond bydd hawl i'r aelodau hynny gynnig eu hunain i gael eu hail ethol mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am hyd at ddau gyfnod dilynol o ddim mwy na thair blynedd yr un.
- iv. Bydd aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol yn cael eu penodi o bryd i'w gilydd pan ddaw seddi'n wag o enwau a geir drwy wahoddiad yn amodol ar eu bod yn cael eu cymeradwyo mewn Cyfarfod Cyffredinol dilynol. Pe deuai mwy o enwau i law nag sydd o lefydd gwag, penodir drwy bleidlais y mwyafrif o aelodau presennol y Bwrdd Ymgynghorol.
- v. Dim ond aelodau o'r Bwrdd Ymgynghorol fydd â hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd y Bwrdd Ymgynghorol.
- vi. Cworwm y Bwrdd Ymgynghorol fydd dau draean o'i aelodaeth.
- vii. Bydd gofyn cael pleidlais o fwyafrif syml o'r rhai yn bresennol ac yn pleidleisio ac eithrio mewn achos o benderfyniad ysgrifenedig (gweler cymal xii) pan fydd yn **rhaid** i bob aelod gytuno.
- viii. Gall y Bwrdd Ymgynghorol benodi is-bwyllgorau o'i aelodau, a fydd yn atebol i'r pwyllgor llawn, i drafod materion penodol fel y gwêl yn dda.
- ix. Bydd pob aelod o'r Bwrdd Ymgynghorol yn cael o leiaf saith (7) niwrnod o rybudd o gyfarfod a rhaglen o'r materion i'w trafod ac eithrio mewn argyfwng gyda chytundeb mwyafrif aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol. Bydd pob papur o'r fath yn cael ei anfon drwy ebost.
- x. Cedwir cofnodion o bob cyfarfod o'r Bwrdd Ymgynghorol a fydd ar gael i bartion â diddordeb.
- xi. Bydd pob gweithred gan y Bwrdd Ymgynghorol yn ddilys oni bai y darganfyddiir yn ddiweddarach nad oedd unrhyw berson a bleidleisodd yn gymwys i bleidleisio am unrhyw reswm.
- xii. Bydd penderfyniad ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan **bob** aelod o'r Bwrdd

Ymgynghorol yn benderfyniad yn rhwymo fel pe byddai wedi'i gario mewn cyfarfod wedi'i gynnull yn ddilys o'r Bwrdd Ymgynghorol.

7. SWYDDOGION

- i. Bydd y Swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth feunyddiol, cyfarfodydd a digwyddiadau'r Gymdeithas ac yn atebol i'r Bwrdd Ymgynghorol.
- ii. Bydd y Swyddogion yn cynnwys y Cadeirydd, y Trysorydd a'r Ysgrifennydd a fydd yn cael eu hethol i'w swydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am un flwyddyn ac yn gymwys i gael eu hail ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- iii. Bydd yr Ysgrifennydd yn gyfrifol am baratoi a rhannu Rhaglenni a pharatoi a rhannu Cofnodion cyfarfodydd i bob aelod. Cedwir cofnodion o:
 - a. Benodiadau pob Swyddog
 - b. Bob trafodaeth mewn cyfarfodydd, gan gynnwys enwau'r rhai oedd yn bresennol.
 - c. Cofnod o bob newid i'r Cyfansoddiad hwn.
 - d. Bydd pob dogfen swyddogol, cofnodion a deunydd hyrwyddo yn ddwyieithog Cymraeg a Saesneg.
- iv. Bydd y Trysorydd yn gyfrifol, ymysg pethau eraill, am:
 - a. Ddarparu gwybodaeth ariannol ynghylch Y GYMDEITHAS ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.
 - b. Darparu datganiadau ariannol bob chwarter a phob blwyddyn.

8. CYFARFODYDD CYFFREDINOL

- i. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Y GYMDEITHAS fis Tachwedd, fel arfer, er mwyn:
 - a) Penodi neu gadarnhau penodi aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol a Swyddogion.
 - b) Cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol
 - c) Cymeradwyo unrhyw fusnes arbennig e.e. newidiadau i'r Cyfansoddiad
 - d) Cymeradwyo penodi Noddwr neu Is-noddwyr ar argymhelliad y Bwrdd Ymgynghorol am gyfnod o hyd at dair blynedd.
 - e) Cymeradwyo penodi Archwilydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol
- ii. Rhoddir o leiaf 14 diwrnod o rybudd i aelodau. Y cworwm fydd traean o'r aelodau. Bydd hawl i bob aelod sydd wedi talu'r tâl aelodaeth enwebu, eilio neu bleidleisio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a phleidleisio ar unrhyw gynnig a gyflwynir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

- iii. Gellir galw Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol o'r GYMDEITHAS drwy roi rhybudd o 21 diwrnod ar gais y Cadeirydd a phump Aelod. Rhoddir o leiaf 14 diwrnod o rybudd i aelodau. Y cworwm fydd traean o'r aelodau.

9. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

Bydd Cyfansoddiad Y GYMDEITHAS yn cael ei adolygu bob tair blynedd fel arfer. Bydd yn rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cymeradwyo gan yr aelodaeth mewn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol neu Eithriadol. Bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd dderbyn pob cynnig ar gyfer newid o leiaf 21 diwrnod cyn y cyfarfod er mwyn gallu rhoi'r rhybudd angenrheidiol o 14 diwrnod i aelodau.

10. DIDDYMU

- (i) Gellir diddymu'r GYMDEITHAS os bydd aelodau'n gweld fod hynny'n angenrheidiol drwy bleidlais y mwyafrif mewn cyfarfod arbennig. Bydd unrhyw asedau neu arian sy'n weddill ar ôl talu dyledion yn cael eu dychwelyd i'w darparwyr neu eu trosglwyddo i elusennau neu grwpiau tebyg yn yr ardal.
- (ii) ni fydd gan aelodau unrhyw atebolrwydd pellach i'r GYMDEITHAS ar ôl ei diddymu a dychwelyd yr asedau, fel yr uchod.

Cafodd y Cyfansoddiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd Ymgynghorol Cychwynnol a'i lofnodi gan y Swyddogion ac aelodau o'r Bwrdd Ymgynghorol Cychwynnol a daw i rym o ... Chwefror 2017 ymlaen.

Swyddogion:

M Wynn Thomas - Cadeirydd
 Peter Hewlett - Trysorydd
 Susan Fogarty - Ysgrifenyddes

Y Bwrdd Ymgynghorol:

Simon Thirsk
 Tony Brown
 John McElhenney
 Wendy Davies